

Atodiad 1: crynodeb o'r sefyllfa bresennol gydag agweddau eraill ar y gwasanaeth gwastraff

Rowndiau casglu gwastraff gweddilliol

1. Ynghyd â rowndiau ailgylchu, gwnaethpwyd newidiadau i rowndiau casglu gwastraff gweddilliol ar yr un pryd. Ni newidiodd hyn amledd y casgliadau ond y bwriad oedd ceisio sicrhau casgliadau mwy cyson trwy newid y math o gerbyd sy'n gwneud y casgliadau a'r rowndiau y dyrannwyd eiddo iddynt. Mae'r newidiadau hynny wedi bod yn effeithiol yn bennaf. Fel gydag unrhyw wasanaeth, mae rhai casgliadau yn cael eu methu, ond ymdrinnir â'r rhain drwy'r tîm gweithrediadau pan fyddant naill ai'n cael gwybod amdanynt (h.y. hunan-adrodd gan y criwiau) neu pan fydd preswylwyr neu Gynghorwyr yn rhoi gwybod i'r Gwasanaethau i Gwsmeriaid. Lle bo'r angen, mae gennym griwiau 'glanhau i fyny' neu caiff casgliadau amgen eu trefnu i ymdrin ag unrhyw faterion.

Rowndiau casglu gwastraff gwyrdd

2. Mae gwastraff gwyrdd wedi cael ei effeithio gan yr un materion â'r holl wasanaethau eraill. Mae'r gwasanaeth yn teimlo fod y ffrwd casglu gwastraff hwn bellach yn ôl ble dylai fod ond, fel pob casgliad gwastraff arall, mae rhai wedi cael eu methu'n achlysurol, a bydd hynny'n dal i ddigwydd. Mae'r rhain yn cael eu rheoli fel y mae'r Gwasanaethau i Gwsmeriaid yn cael gwybod amdanynt.
3. Yn ddiweddar cytunodd y gwasanaeth a'r Cabinet (mewn Briff Cabinet) i ddefnyddio dull o gydnabod y materion a wynebier gan gwsmeriaid gwastraff gwyrdd. Mae'r gwasanaeth y gweithio trwy faterion yn ymwneud â hyn ar hyn o bryd yn unol â'r flwyddyn danysgrifio newydd a fydd yn dechrau ar 1 Ebrill 2025. Bydd cynnig ar gyfer Penderfyniad Dirprwyedig Aelod Arweiniol yn cael ei ddsbarthu i Aelodau yn fuan.

Casgliadau â chymorth

4. Cawsom broblemau gyda chasgliadau â chymorth yn cael eu methu ar ôl dechrau gweithredu'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu newydd. Cafodd y rhan fwyaf o'r problemau hyn eu datrys pan gyflwynwyd y rowndiau casglu diwygiedig ar 4 Tachwedd. O ganlyniad i'r prosesau a'r gweithdrefnau newydd a weithredwyd,

Atodiad 1: crynodeb o'r sefyllfa bresennol gydag agweddau eraill ar y gwasanaeth gwastraff

daeth gyrwyr i ddeall yn well pa eiddo oedd angen casgliadau â chymorth ac roedd modd archwilio a gwirio'n well a oedd casgliadau â chymorth wedi digwydd. Cynhaliwyd proses o resymoli eiddo a oedd wedi'u neilltuo ar gyfer casgliad â chymorth ac arweiniodd hynny at ddileu 676 eiddo o'r gwasanaeth gan nad oedd ei angen arnynt mwyach.

5. O ganlyniad i welliannau yn y cab a datrys problemau meddalwedd, llwyddwyd hefyd i helpu'r criwiau casglu a gwella eu galluoedd rheoli i nodi a yw eiddo wedi cael casgliad â chymorth, gan arwain at lai o adroddiadau am broblemau gyda'r gwasanaeth hwn.

Casglu Cynnyrch Hylendid Amsugol

6. Ym mis Mehefin, cyflwynwyd dwy rownd benodol ar gyfer cynnyrch hylendid amsugol a wynebodd broblemau yn ystod camau cyntaf y newid i wasanaethau. Mae gwelliannau i ddulliau adrodd, prosesau a systemau yn y cab yn golygu bod y gwasanaeth hwn bellach yn rhedeg fel y dylai, er ei fod yn wynebu'r problemau gweithredol arferol y mae pob gwasanaeth gwastraff yn eu hwynebu.
7. Ail-agorwyd cofrestriadau ar gyfer y gwasanaeth hwn ym mis Medi 2024 ac mae trydydd rownd neilltuo casgliadau cynnyrch hylendid amsugol bellach wedi mynd yn fyw. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yng nghapasiti'r gwasanaeth hwn.
8. Bydd y broses gofrestru ar gyfer y system hon bellach yn aros ar agor yn barhaol a gall trigolion gofrestru ar ei chyfer ar unrhyw adeg. Bydd ceisiadau newydd yn cael eu prosesu a'u hychwanegu at y rowndiau presennol wrth iddynt ddod i mewn. Gall preswylwyr nad oes angen y gwasanaeth arnynt mwyach gysylltu â ni i ddweud hynny. Rydym hefyd yn gweithredu polisi lle rydym yn dileu'r gwasanaeth os nad yw eiddo'n rhoi'r bin cynnyrch hylendid amsugol allan am dri chasgliad yn olynol.

Casgliadau tecstilau

9. Mae bagiau elusen tecstilau wedi'u dosbarthu i holl Siopau Un Alwad CSDd (Llangollen, Corwen, Rhuthun, Dinbych, Llanelwy, Rhuddlan, y Rhyl a Phrestatyn).

Atodiad 1: crynodeb o'r sefyllfa bresennol gydag agweddau eraill ar y gwasanaeth gwastraff

Gall aelodau o'r cyhoedd fynd i nôl y rhain a naill ai ffonio Co-options i drefnu eu casglu (manyion ar y bag ei hun) neu fynd â nhw i un o'r banciau dillad niferus ledled y sir, lle byddant yn cael eu casglu.

Casgliadau eitemau swmpus

10. Mae casgliadau eitemau swmpus yn gweithredu yn ôl yr arfer ac yn cael eu rheoli trwy CAD Recycling. Mae'r trefniant interim hwn yn gweithio'n dda, ond y bwriad yw ailddyrrannu adnoddau mewnol i wneud y casgliadau cyn gynted â phosibl.

Casglu gwastraff masnachol

11. Mae'r holl gontractau sydd gan Gyngor Sir Ddinbych ar hyn o bryd yn cael eu gwasanaethu gyda chasgliadau. Nid oes unrhyw bryderon mawr gyda'r gwasanaeth hwn gan ei fod yn gweithredu ar wahân i'r gwasanaeth domestig. Mae problemau bach yn cael eu rheoli'n effeithiol gan y tîm.

Cyflwyno biniau ar olwynion dros ben

12. Gwyddom fod hon yn dal i fod yn broblem logisteg sy'n gymhleth i'w datrys. Mae gennym swyddogion yn gweithio ar ddatrysiad i'r broblem ac rydym yn anelu at gasglu unrhyw finiau dros ben dros y misoedd nesaf. Gwnaeth y Gwasanaeth Gwastraff benderfyniad ymwybodol i oedi casglu'r biniau hyn er mwyn osgoi amharu'n andwyol ar y gwasanaeth tra mae'n ceisio sefydlogi yn dilyn cyflwyno'r rowndiau ailgylchu diwygiedig ar 4 Tachwedd 2024, ac i osgoi amharu ar y cynnydd mewn llwyth gwaith dros y Nadolig. Rydym bellach yn brysur yn cynllunio logisteg y broses gasglu hon gyda WRAP ac yn trefnu bod y biniau hyn yn cael eu casglu. Er nad yw'r manylion wedi'u cadarnhau eto, dylai'r cynllun hwn gael ei gadarnhau yn y dyfodol agos ac rydym yn anelu at ddechrau ei weithredu yn ystod mis Chwefror 2025.